



Nodiadau i Geiswyr ac Apelyddion Ffurflen UT8

(Iechyd Meddwl Cymru)

Y mae'r Siambr Apeliadau Gweinyddol yn rhan o'r Uwch Dribiwnlys ac yn penderfynu ar apeliadau ar bwyntiau cyfreithiol yn sgil penderfyniadau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'r Uwch Dribiwnlys yn cynnwys barnwyr Uchel Lys a barnwyr arbenigol eraill a benodir gan y Frenhines.

Dylid defnyddio **Ffurflen UT8** i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (MHRT) Cymru. Dylid ei defnyddio hefyd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys os yw MHRT Cymru eisoes wedi rhoi caniatâd i apelio.

Dylid anfon **Ffurflen UT8** i Swyddfeydd Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys yng Nghanolfan Llysoedd Sifil Caerdydd fel y derbynnir hi ddim hwyrach nag **un mis** ar ôl y dyddiad yr anfonodd MHRT Cymru hysbysiad atoch fod y Tribiwnlys wedi gwrthod neu roi caniatâd i apelio, neu wedi gwrthod derbyn eich cais. Os ydych yn hwyr, rhaid i chi esbonio pam yn **Rhan G** y ffurflen.

Cyn i chi ddefnyddio Ffurflen UT8

Rhaid i chi wneud cais i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru am ganiatâd i apelio. Dylech fod wedi derbyn gwybodaeth gan MHRT Cymru am sut a phryd i wneud hyn.

Rhan A – Ynglŷn â'r Ceisydd/Apelydd

'**Ceisydd**' yw unigolyn sy'n gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. '**Apelydd**' yw unigolyn sydd wedi cael caniatâd i apelio ac sydd yn awr yn apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Mae **Ffurflen UT8** i'w defnyddio gan Geiswyr ac Apelyddion. Nid oes ots pa un ydych chi.

Dylech dicio'r blwch priodol i ddangos a ydych yn glaf neu'n berthynas agosaf y claf neu'n awdurdod cyfrifol neu'n apelydd neu geisydd swyddogol arall.

Rhan B – Ynglŷn â'r Claf

Dylai pwy bynnag sy'n llenwi'r ffurflen hon fel ceisydd neu fel apelydd lenwi **Rhan B** yn rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani am y claf.

Rhan C – Ynglŷn â Pherthynas Agosaf y claf

Os ydych chi'n gwneud y cais neu'r apêl fel Perthynas Agosaf y claf, dylech roi eich enw a'ch cyfeiriad chi yn **Rhan C**.

Rhan D – Ynglŷn â chynrychiolydd y claf neu'r perthynas agosaf

Gall y claf neu'r perthynas agosaf gael eu cynrychioli gan gyfreithiwr neu gan unrhyw unigolyn arall. Os oes gennych Gynrychiolydd, dylech roi ei fanylion yn y blychau pwrpasol yn **Rhan D**. Wedyn dim ond gyda'ch cynrychiolydd y bydd Swyddfa'r Uwch Dribiwnlys yn gohebu.

Rhan E – Ynglŷn â'r awdurdod cyfrifol

Dylai pwy bynnag sy'n llenwi'r ffurflen hon fel ceisydd neu fel apelydd lenwi **Rhan E** yn rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani am yr awdurdod cyfrifol. Os yw'r claf yn cael ei gadw neu ar orchymyn triniaeth gymunedol, rhowch fanylion yr ysbyty lle mae'r claf yn cael ei gadw neu'n cael ei drin neu'r ysbyty sy'n gyfrifol am y claf, os yw'n wahanol. Rhowch enw'r swyddog sy'n gyfrifol am achos y claf yn y blwch a ddarperir.

Os yw'r claf dan warcheidwadaeth, rhowch fanylion yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol cyfrifol.

Rhan F – Ynglŷn â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a benderfynodd ar eich achos

Dylai lleoliad gwrandawriad MHRT Cymru, dyddiad y penderfyniad a rhif cofrestr eich achos (os yw wedi'i roi i chi) i gyd fod ar benderfyniad ysgrifenedig y tribiwnlys.

Rhan G – Rhesymau am unrhyw oedi

Dylech fod wedi gwneud cais ysgrifenedig i MHRT Cymru am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys fel ei fod wedi ei **dderbyn ddim hwyrach na 28 diwrnod** ar ôl i resymau ysgrifenedig gael eu hanfon atoch am benderfyniad y tribiwnlys (neu hysbysiad o resymau diwygiedig neu gywiriad yn dilyn adolygiad neu hysbysiad na fu cais i osod o'r naill du yn llwyddiannus).

Dylid anfon neu fynd â Ffurflen UT8 i swyddfa'r Uwch Dribiwnlys yng Nghaerdydd, fel y derbynnir hi ddim hwyrach nag un mis ar ôl y dyddiad yr anfonodd MHRT Cymru hysbysiad atoch fod y Tribiwnlys wedi gwrthod neu wedi rhoi caniatâd i apelio, neu wrthod derbyn eich cais.

Os bydd eich cais neu apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn hwyr, rhaid i chi ofyn am estyniad amser ac esbonio'r oedi yn **Rhan G** y ffurflen. Rhaid i chi roi rheswm da er mwyn i'r Uwch Dribiwnlys dderbyn eich cais neu apêl.

Os gwrthododd MHRT Cymru eich cais am ganiatâd i apelio am ei fod yn hwyr, ni chaiff ei dderbyn oni bai fod yr Uwch Dribiwnlys o'r farn y byddai gwneud hynny er budd cyfiawnder. Pa un bynnag, bydd rhaid i chi esbonio'r oedi.

Gall yr Uwch Dribiwnlys ystyried hyd yr oedi, a materion eraill megis effaith y penderfyniad arnoch chi, pwysigrwydd posibl yr achos ac ati, ac felly gallwch grybwyll y rhain hefyd fel rhesymau.

Defnyddiwch y blwch a ddarperir ar y ffurflen neu ddalen ar wahân o bapur os oes angen. Os ydych yn defnyddio dalen arall, cofiwch roi eich enw arni.

Rhan H – Rhesymau dros Apelio

Rhaid i chi egluro paham eich bod yn meddwl bod penderfyniad Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn **anghywir yn ôl y gyfraith**. Dyma enghreifftiau o gamgymeriadau cyfreithiol:

- Ni ddefnyddiodd y tribiwnlys y gyfraith gywir neu mae wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir.
- Gwnaeth y tribiwnlys wall trefniadaethol.
- Nid oedd gan y tribiwnlys dystiolaeth, neu nid oedd ganddo ddigon o dystiolaeth, i gefnogi'i benderfyniad.
- Ni roddodd y tribiwnlys resymau digonol (yn y datganiad ysgrifenedig o'i resymau).

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain a gall penderfyniad MHRT Cymru fod yn anghywir yn ôl y gyfraith am ryw reswm arall. Dylech esbonio mor fanwl ag y bo modd pam mae'r penderfyniad yn **eich achos penodol chi** yn anghywir yn ôl y gyfraith. Os oes gennych gynrychiolydd, bydd yn gallu'ch cynghori a gall lenwi'r ffurflen ar eich rhan. Ni ddylech fethu'r terfyn amser o **un mis** ar gyfer anfon eich ffurflen gais.

Bydd yr hyn a ddywedwch ar Ffurflen UT8 yn cael ei ystyried fel eich prif gyflwyniadau yn yr apêl (hyd yn oed os mai gwneud cais am ganiatâd i apelio yn unig yr ydych). Felly, dylech wneud yn siŵr eich bod yn dweud popeth yr ydych eisiau'i ddweud yn awr. Ar y llaw arall, cofiwch y gallai cyflwyniadau byr a chllir fod yn fwy effeithiol na rhai hir ailadroddus.

Gallwch ddefnyddio dalen ar wahân, ond cofiwch roi eich enw llawn arni a'i hanfon gyda'r ffurflen.

Rhan I - Cais am gael gwrandawriad llafar o Gais

Os ydych yn gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am un ganiatâd i apelio a'ch bod chithau neu eich cynrychiolydd am ymddangos gerbron un o farnwyr yr Uwch Dribiwnlys **mewn gwrandawriad llafar o'ch cais**, llenwch y blychau perthnasol yn **Rhan I**.

Os gwrthodir caniatâd i chi apelio (neu os cewch ganiatâd ar seiliau cyfyngedig neu'n ddarostyngedig i amodau) heb wrandawriad llafar, fe gewch gyfle i ofyn o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad gael ei ailystyried mewn gwrandawriad llafar.

Fel arfer bydd gwrandawriadau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau rhanbarthol ar draws Cymru neu drwy gyswllt fideo o sawl lleoliad. Anfonir rhagor o wybodaeth atoch os bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn caniatáu eich cais am wrandawriad llafar.

Peidiwch â llenwi'r bocsys am wrandawriad llafar **os yw Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru wedi rhoi caniatâd i chi apelio**. Yn yr achos hwnnw, neu os bydd yr Uwch Dribiwnlys yn rhoi caniatâd i apelio i chi, cewch gyfle i ofyn am i'ch **apêl gael ei chynnal trwy wrandawriad llafar** yn ddiweddarach yn y broses.

Rhan J – Cais/Apêl i'r Uwch Dribiwnlys

Hyd yn oed os oes gennych gynrychiolydd, **rhaid i'r Ceisydd neu'r Apelydd neu'r Perthynas Agosaf lofnodi'r ffurflen yn bersonol yn Rhan J**. Bydd eich lofnod yn cael ei gymryd fel caniatâd i'r cynrychiolydd a enwir yn **Rhan D** weithredu ar eich rhan. Yr

unig eithriad i hyn yw lle mae'r cynrychiolydd yn gyfreithiwr. Rhagdybir bod cyfreithiwr yn gweithredu ar gyfarwyddiadau, a gall lofnodi'r ffurflen ar ran y Ceisydd neu'r Apelydd neu'r Perthynas Agosaf.

Os ydych chi'n gwneud cais am **Ystyriaeth Frys** llenwch y blwch a dweud pam.

Anfon Ffurflen UT8 i Swyddfa'r Uwch Dribiwnlys

Cadwch y nodiadau hyn mewn man diogel fel bod gennych gofnod o'r cyfeiriad isod.

Anfonwch **Ffurflen UT8**, a'r dogfennau a restrir ar ddiwedd y ffurflen, i Swyddfa Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys o fewn y **mis** a ganiateir (gweler y nodiadau i **Ran G** uchod). **Os ydych yn hwyr**, gallwch anfon eich ffurflen i mewn o hyd ond rhaid i chi esbonio pam yn **Rhan G** y ffurflen.

Cyfeiriad Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys yw:

 Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys

 Canolfan Llysoedd Sifil Caerdydd

 2 Heol y Parc

 Caerdydd

 CF10 1ET

Rhaid i chi amgáu'r dogfennau a restrir ar ddiwedd y ffurflen. Fel arall, efallai y bydd eich cais neu apêl yn cael eu gwrthod neu eu dal yn ôl.

Cysylltwch â Swyddfa'r Uwch Dribiwnlys yng Nghaerdydd os na chewch wybod o fewn wythnos fod y ffurflen wedi'i derbyn.